**Eitem ar yr agenda: 4(i)**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 19eg Rhagfyr 2005 yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y bore.

## Yn bresennol:

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Williams (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | |
| P C Evans YH | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W E Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R D Peacock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| D Clayton | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| C Shone | Cyngor Sir y Fflint |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |
| N S Colbourne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P M Shone | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

## Hefyd yn bresennol:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol), S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); S Forrest (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); W A Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); K Hughes (Uwch Reolwr Datblygu); D G Roberts (Uwch Reolwr

Diogelwch Tân); T White (Dadansoddwr TG) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J A MacLennan (dirprwy) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| R G Hampson | Cyngor Sir y Fflint |
| J Ovens | Cyngor Sir y Fflint |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |

Cyn dechrau ar y busnes, rhoddodd y Cynghorydd J A Smith, fel Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych, groeso i'r Awdurdod Tân ac Achub i Neuadd y Sir.

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Dywedodd y Cadeirydd fod un eitem wedi cael ei chyflwyno i'w hystyried, sef ymateb drafft i lythyr ymgynghorol Llywodraeth y Cynulliad ar "Safonau Gwasanaeth ar gyfer ymateb i danau yn y cartref". Cafodd yr aelodau wybod y byddai llythyr y Gweinidog a'r ymateb drafft, y ddau wedi eu dosbarthu yn y cyfarfod, yn cael eu trafod dan eitem fusnes 16.

## 3) Cyhoeddiadau

Cyhoeddodd y Cadeirydd:

i. Fod y Cynghorydd S C Jones bellach dan ofal Ysbyty Glan Clwyd. Cafodd yr Awdurdod wybod y byddai'n gwerthfawrogi llythyrau gan ei chyd-aelodau'n fawr, ac addawodd y Cadeirydd ymweld â hi cyn bo hir gan ei bod yn cael derbyn ymwelwyr.
ii. Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd N S Colbourne yn dilyn marwolaeth ei fam yn ddiweddar.
iii. Llongyfarchwyd Bethan Davies, Swyddog y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus y Gwasanaeth ar ei phriodas yn ddiweddar â Mr Stuart Millington.
iv. Dymunwyd yn dda i'r Cynghorydd P C Evans a oedd yn ymddeol o'i waith â Dŵr Cymru ddiwedd y flwyddyn.
v. Dyddiadau'r cyfarfodydd i ddod: byddai dyddiadau cyfarfodydd Gweithgor y Cynllun Risg a'r Panel Gweithredol yn cael eu trefnu dan eitem fusnes 7 ar agenda'r cyfarfod presennol.

vi. Cynhadledd Walesfire 2006: atgoffwyd yr Awdurdod fod y gynhadledd hon yn cael ei chynnal yn Llandudno rhwng 8fed a 10fed Mai 2006. Gofynnwyd i'r aelodau ddychwelyd eu ffurflenni cofrestru trwy Bencadlys y Gwasanaeth er mwyn gallu talu'r ffioedd.

Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - anfon llythyr at y Cynghorydd S C Jones i fynegi dymuniadau'r Awdurdod iddi am wellhad llwyr a buan.***

Yn dilyn ymddangosiad erthygl mewn papur lleol yn ddiweddar a oedd yn cynnwys gwybodaeth anghywir, gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau geisio ei gyngor ef a/neu'r swyddogion cyn rhoi sylwadau i'r wasg neu'r cyfryngau ynghylch ymholiadau o natur ddadleuol.

## 4) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 19eg Medi 2005

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.***

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:

ii. Cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 10fed Hydref 2005
iii. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 26ain Hydref 2005

## 5) Materion yn codi

Roedd y materion hyn yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd:

**Tud. 2, Trasiedi:** cafodd yr aelodau wybod gan y Prif Swyddog Tân ei fod gyda gofid yn eu hysbysu o farwolaeth oherwydd tân a oedd wedi digwydd ar drothwy cyfarfod yr Awdurdod. Digwyddodd y drasiedi yn Eglwysbach.

**Tud. 4, Materion yn codi, Y Berthynas rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) a'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru:** rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r Awdurdod mai siomedig oedd ymateb y Gymdeithas i sylwadau'r Awdurdod ynghylch sefydlu Panel Gwasanaethau Tân Cymru gan y Gymdeithas. Yng nghyfarfod cyntaf y Panel, pan na lwyddodd Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub y Gogledd na Chadeirydd Awdurdod Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin ei fynychu oherwydd y tywydd garw, ni dderbyniwyd cynnig y Prif Swyddog Tân y dylai pum cynrychiolydd o bob Awdurdod wasanaethu ar y Panel. Penderfyniad y Panel oedd mai dim ond cadeirydd ac is-gadeirydd pob awdurdod ddylai wasanaethu ar y Panel, gan wahodd

aelodau eraill i fynychu fel sylwedyddion ar sail ad hoc. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Awdurdod ei fod yn siomedig tu hwnt ynghylch y penderfyniad ei hun a'r ffordd y cafodd ei wneud, yn absenoldeb dau o blith y tri chynrychiolydd gwleidyddol. Tawelodd feddyliau'r aelodau drwy ddweud mai ei fwriad oedd codi'r mater gyda Mr Steve Thomas, Cyfarwyddwr WLGA, cyn gynted ag y bo modd. Roedd y Cynghorydd E C George o'r farn ei bod yn rhaid i'r egwyddor o Fforwm neu Banel estynedig gael ei sefydlu'n ffurfiol cyn gynted ag y bo modd. Felly:

***Penderfynwyd:* - bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Panel Gweithredol a'r Awdurdod Tân ac Achub ynghylch hynt ffurfioli'r berthynas waith rhwng yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru a'r Gymdeithas.**

**Tud. 9, Eitem 12, Darparu Yswiriant ar gyfer Diffodd Tanau ar y Môr neu o dan y Môr:** Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n codi mater darpariaeth yswiriant yng nghyfarfod nesaf y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Brigadau Tân Awdurdodau Lleol (NJC), oedd i'w gynnal ar Ionawr 10fed 2006.

## 6) Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) i roi'r diweddaraf yn gryno i'r aelodau ynghylch y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychodd, yn rhiwnedd ei swydd fel Cadeirydd, ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod Tân ac Achub ar Fedi 19eg 2005. Rhestrodd y Cadeirydd y cyfarfodydd a'r digwyddiadau oedd yn ei adroddiad. Cadarnhaodd fod gwahoddiad pellach wedi dod i law i annerch y Pwyllgor yn y dyfodol agos, yn dilyn y cyflwyniad a roddwyd i Bwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'r Cynulliad gan Brif Swyddogion Tân a Chadeiryddion yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru ar 16eg Tachwedd. Cafodd yr aelodau wybod gan y Cadeirydd fod y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wedi ailddatgan, yn ystod cyfarfod a fynychodd ar 8fed Rhagfyr, ei barn fod yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru eisoes wedi cael eu had-drefnu. Dywedodd hefyd ei bod yn gwrthwynebu i'r awdurdodau tân ac achub ddod yn awdurdodau praeseptio. Cafodd y swyddogion eu llongyfarch gan y Cadeirydd am lwyddiant y gwasanaeth carolau blynyddol ond cofnododd ei siom ynghylch nifer yr aelodau oedd yn bresennol. Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Awdurdod fod y trefniadau'n mynd ymhell yn eu blaenau i sefydlu delwedd wahanol ar gyfer Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc (YFA) yng Ngogledd Cymru, ac ar gyfer cynnal cystadleuaeth rhwng canghennau. Dywedodd hefyd wrth yr aelodau y byddai'n gofyn am ddarparieth o £3k o fewn cyllideb 2006/07 i ariannu'r gystadleuaeth a'r costau cysylltiedig. Cefnogwyd hyn gan y Cynghorydd Sharon Frobisher a'r Cynghorydd John Smith. Y gobaith oedd y gellid cwrdd â chostau'r Gymdeithas yn y dyfodol gydag arian nawdd. Dywedodd y Cadeirydd hefyd wrth yr Awdurdod y byddai'n dod ag adroddiad cynnydd gerbron cyfarfod nesaf yr Awdurdod. Felly:

***Penderfynwyd:* - nodi'r wybodaeth oedd yn yr adroddiad.**

## 7) Cynllun Integredig Rheoli Risg – Y Cynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn

Cyn i'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) Paul Claydon gyflwyno'r adroddiad a Chynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn drafft y Cynllun Integredig Rheoli Risg o'r enw "Cynnal y Momentwm" (a ddosbarthwyd o flaen llaw), dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr Awdurdod fod y cynllun drafft oedd o'u blaenau wedi cael ei lunio yn absenoldeb Arweiniad gan y Cynulliad. Roedd hyn yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr lle roedd arweiniad ar Gynlluniau Risg ar gael ers tro. Aeth yn ei flaen i esbonio petai'r Awdurdod wedi ymatal rhag llunio cynllun gweithredu hyd nes y byddai'r Cynulliad wedi cyhoeddi ei arweiniad, ni ellid fod wedi ymgorffori bwriadau'r cynllun gweithredu yng nghyllideb ddrafft yr Awdurdod ar gyfer 2006/07. Dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon wrth yr aelodau fod y cynllun gweithredu drafft gerbron yr Awdurdod yn cynnwys y newidiadau a gymeradwywyd gan y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 13eg Rhagfyr 2005. Gwrthododd yr aelodau ei gynnig o gael gweld y cyflwyniad llawn a roddwyd i Weithgor y Cynllun Risg/Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 13eg Rhagfyr. Manylodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon ar y cynigion oedd yn y Cynllun Gweithredu a dangos y data a ddefnyddiwyd i lunio'r bwriadau mwyaf arwyddocaol i'r aelodau cyn ateb eu cwestiynau.

O ran yr Adolygiad o Beiriannau Arbennig, esboniodd mai data hanesyddol oedd sail y cynnig i beidio â chael Peiriant ag Ysgol a Throfwrdd (Turntable Ladder (TTL)), yn lle'r un sydd ym Mangor ar hyn o bryd, pan fydd yn dod i ddiwedd ei hoes weithredol yn 2008 ac i weithredu gyda fflyd o dri yn hytrach na phedwar peiriant cyrraedd yn uchel (ALP), ac roedd y data hanesyddol hwn yn cynnig nifer y digwyddiadau yr anfonwyd y peiriannau atynt dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Cafodd yr aelodau weld sleidiau'n dangos yr wybodaeth hon, cost cael peiriant newydd a'r costau criwio a chynnal a chadw. Pwysleisiodd y swyddogion nad oedd y cerbydau hyn, oherwydd yr amser a gymerid a'r lle yr oedd ei angen i'w gosod yn barod, yn rhai delfrydol ar gyfer achub pobl. Roedd peiriannau cyrraedd yn uchel hefyd yn enwog am broblemau mecanyddol, ac yn achos y peiriant ag ysgol a throfwrdd, nid oedd neb ym Mhrydain yn cynhyrchu nac yn cyflenwi rhannau ar eu cyfer bellach. Felly, ni fyddai adnewyddu'r cerbyd presennol yn opsiwn hyfyw. Yna, cafodd yr Awdurdod weld sleidiau'n dangos map o'r ardaloedd y gellid eu cyrraedd gan y pedwar peiriant ALP o fewn 20 munud ac o fewn 30 munud o'r safleoedd presennol. Esboniodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon fod Gweithgor y Cynllun Risg, yn seiliedig ar yr wybodaeth yma, wedi dod i'r casgliad y dylid mabwysiadu amser cyrraedd o 30 munud ar gyfer y cerbydau ALP, ac mae'r safleoedd gorau yn strategol ar gyfer y tri cherbyd fyddai'n weddill fyddai Bangor, y Rhyl a Wrecsam. Cofnododd y Cynghorwyr J Vaughan a P C Evans eu gwrthwynebiad i'r cynnig i gael gwared ar y cerbyd o orsaf dân Llandudno. Roedd y Cynghorydd Vaughan o'r farn fod nifer uchel y gwestai yn Llandudno a'r cyffiniau yn cyfiawnhau mai Llandudno, yn hytrach na Bangor, ddylai lleoliad y cerbyd fod. Mae dros 100,000 o bobl yn ymweld ag ardal Llandudno yn ystod

y tymor gwyliau, ac roedd y cerbyd wedi ei ddefnyddio unwaith eisoes eleni i achub. Atgoffwyd yr aelodau gan y swyddogion ei bod yn ofynnol i westai dan y gyfraith fod â'r mesurau diogelwch tân angenrheidiol ac i beidio â dibynnu ar y Gwasanaeth a'i adnoddau yn lle eu darpariaethau eu hunain. Gwnaeth y Cynghorydd Evans sylw na allai ddeall fod yr Awdurdod nawr yn bwriadu cael gwared ar y cerbyd a hwythau, ddim ond ychydig flynyddoedd yn ôl, wedi penderfynu cael un arall yn lle'r hen un yn Llandudno. I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd Evans, dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau nad oedd y Gweinidog wedi rhoi unrhyw arwydd y byddai'n ystyried gosod amseroedd cyrraedd gofynnol ar gyfer peiriannau arbennig dan y Safonau Gwasanaeth newydd. I ateb cwestiynau eraill ynghylch y posibilrwydd y medrai Gogledd Cymru fod yn ddibynnol ar ofal dros y ffin gan gerbydau ALP o ardaloedd eraill ac fel arall, dywedodd y Prif Swyddog Tân fod yr opsiwn yma hefyd wedi cael ei drafod yn fanwl gan Weithgor y Cynllun Risg/Panel Gweithredol. Os oedd hyn i'w gynnwys yn y cynllun gweithredu, byddai raid i'r awdurdodau dan sylw gael eu hysbysu, ac os oeddent yn cytuno i'r cynnig, byddai tâl yn cael ei godi ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am y ddarpariaeth hon. Byddai gwaith cydweithrediadol gyda Gwasanaethau Tân ac Achub Swydd Gaer a Swydd Amwythig yn parhau. Dim ond yn ddiweddar yr oedd yr Awdurdod wedi bod yn darparu gofal i ran o ardal Swydd Gaer tra nad oedd cerbyd ALP Caer ar gael.

Atgoffwyd yr Awdurdod gan y Prif Swyddog Tân mai dim ond gofyn iddynt gefnogi'r Cynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn drafft at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus yr oeddid. Unwaith y byddai'r ddogfen yn cael ei chyhoeddi, byddai'r gweithwyr, cyrff cynrychioliadol y staff, awdurdodau lleol, sefydliadau a'r cyhoedd yn cael cyfle i ymateb a datgan eu barn a'u pryderon. Byddai'r ymatebion yn cael eu casglu ac yn cael eu hadrodd yn ôl i Weithgor y Cynllun Risg a'r Panel Gweithredol eu hystyried. Byddai unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud cyn cyflwyno'r Cynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn terfynol i'r Awdurdod ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ym Mawrth 2006. Dywedodd y Clerc wrth yr Awdurdod na ddylai adael i fethiant y Gweinidog a Llywodraeth y Cynulliad i gyhoeddi'r cyfarwyddyd perthnasol mewn pryd rwystro ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol na'i broses o osod y gyllideb. Petai'r Arweiniad, pan ddeuai i law, yn cymryd safbwynt wahanol i'r hyn a ragwelid, fe allai'r Awdurdod adolygu ei Gynllun Gweithredu yn ei gyfarfod ym mis Mawrth.

Yna, aeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon drwy'r bwriadau eraill yn y cynllun gweithredu drafft. Roedd y bwriad i godi tal am alwadau diangen parhaus gan systemau larwm tân awtomatig yn ddibynnol ar ddyfodiad y ddeddfwriaeth berthnasol. Byddai dyfodiad cyfundrefn o'r fath yn galluogi'r Awdurdod i gyflwyno cosb ariannol ar dramgwyddwyr parhaus, a byddai hyn, yn y tymor hir gobeithio, yn arwain at gynnal a chadw'r systemau'n well a rhyddhau'r peiriannau a'r staff i ymdrin â digwyddiadau go iawn a gwaith diogelwch tân cymunedol.

O ran y trydydd pwynt yn y cynllun gweithredu, dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon wrth yr Awdurdod fod yr holl ddadleuon moesol ynghylch gwerth cyd-ymateb wedi eu trafod.  Roedd Gweithgor y Cynllun Risg wedi penderfynu y dylid treialu cynllun cyd-ymateb yng ngorsafoedd tân Porthmadog, Harlech ac Abermaw, fel rhan o astudiaeth ddichonoldeb i weld pa fanteision y gallai cynllun o'r fath ei gael i'r gwasanaeth tân ac achub, y gwasanaeth ambiwlans a'r cyhoedd, a'r effaith y gallai darparu'r gwasanaeth ei gael ar adnoddau'r Awdurdod.

Byddai'r pedwerydd pwynt gweithredu sy'n ymwneud â gwella gwasanaeth diogelwch tân cymunedol i ardaloedd gwledig hefyd yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r Adolygiad o Beiriannau Arbennig, gan y byddai'r peiriannau deuddiben arfaethedig yn rhoi gwell gwasanaeth ymateb i gymunedau mewn ardaloedd gwledig.  Cyfeiriodd y Cynghorydd W E Jones at ddigwyddiad mewn eiddo yn ardal Llangernyw yn ddiweddar lle roedd sôn nad oedd y peiriant agosaf wedi gallu dod o hyd i'r cyfeiriad a bod yr ail beiriant wedi cyrraedd yr eiddo o'i flaen.  Dywedodd y Prif Swyddog Tân nad oedd yn ymwybodol o'r digwyddiad, a gofynnodd i'r Cynghorydd Jones roi rhagor o wybodaeth iddo er mwyn gallu gwneud rhagor o ymholiadau.  Dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon wrth yr aelodau y byddai trigolion mewn ardaloedd gwledig, fel rhan o'r gwasanaeth diogelwch tân cymunedol gwell, yn cael eu haddysgu am faterion diogelwch tân megis cadw rhifau grid yr Arolwg Ordnans wrth law.  Roedd cyswllt hefyd rhwng y pwynt gweithredu hwn â'r pwynt gweithredu dilynol sef y Ddarpariaeth Canfod Lleoliadau'n Awtomatig.  Byddai offer canfod lleoliadau'n awtomatig yn galluogi swyddogion i anfon yr adnoddau mwyaf priodol i ddigwyddiad.

Byddai darparu mynediad hawdd at wybodaeth monitro perfformiad o fudd i'r staff, aelodau'r Awdurdod a'r cyhoedd.  Dywedodd y Cynghorydd D Clayton wrth yr Awdurdod fod Uned Data Llywodraeth Leol – Cymru wedi bod yn ystyried datblygu meddalwedd benodol ar gyfer awdurdodau lleol yn y maes penodol hwn.  Unwaith y byddai'r feddalwedd yn barod, roeddent wedi addo ei ddarparu yn rhad ac am ddim i bob awdurdod lleol.  Diolchodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon i'r Cynghorydd Clayton am yr wybodaeth, ac addawodd wneud ymholiadau i weld pa mor addas fyddai ar gyfer awdurdodau tân ac achub.

Roedd y pwynt gweithredu olaf yn y Cynllun Gweithredu Drafft yn ymwneud ag adolygiad o'r Ddarpariaeth o ran Rheolwyr ar yr Ochr Weithredol.  Cafodd yr aelodau wybod bod yr adolygiad yn hir-ddisgwyliedig a bod angen i'r Awdurdod sefydlu bod ei adnoddau yn y llefydd strategol.

Yna, dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau mai'r argymhelliad oedd y dylai'r ymgynghoriad ar Cynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn Cynllun Risg yr Awdurdod fynd tan Fawrth 1af 2006.  Fe fyddai'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu casglu a'u hadrodd yn ôl i Weithgor y Cynllun Risg/Panel Gweithredol, a hwy fyddai'n penderfynu ar y newidiadau, os o gwbl, fyddai angen eu gwneud

i'r Cynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod ei fabwysiadu erbyn diwedd Mawrth 2006. Cafodd yr aelodau wybod bod raid rhoi digon o amser rhwng cyfarfod y Panel Gweithredol a chyfarfod yr Awdurdod er mwyn gallu ymgorffori'r newidiadau angenrheidiol yn y Cynllun Gweithredu diwygiedig. Awgrymodd y Cadeirydd gynnal cyfarfod o Weithgor y Cynllun Risg a'r Panel Gweithredol ddydd Llun 13eg Mawrth 2006, a chynnal cyfarfod arferol yr Awdurdod Tân ac Achub 20fed Mawrth 2006, a chyfarfod arbennig o'r Awdurdod Tân ac Achub i'w gynnal ar 27ain Mawrth 2006, gyda'r unig ddiben o drafod a mabwysiadu Cynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn y Cynllun Risg. Roedd rhai aelodau eraill o'r farn y byddai cynnal dau gyfarfod o'r Awdurdod llawn o fewn 7 niwrnod i'w gilydd yn wastraff adnoddau gwerthfawr. Doethach fyddai newid dyddiad cyfarfod yr Awdurdod ym mis Mawrth i 27ain Mawrth er mwyn cyd-fynd â phroses y Cynllun Risg. Pan bleidleisiwyd:

***Penderfynwyd: -***

***i. nodi cynnwys yr adroddiad;***
***ii. cymeradwyo Cynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn y Cynllun Risg, sef "Cynnal y Momentwm" fel y'i lluniwyd at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus, a'r ymatebion i ddod i law erbyn 1af Mawrth 2006;***
***iii. adrodd canlyniadau'r ymgynghoriad yn ôl i Weithgor y Cynllun Risg/Panel Gweithredol i ystyried unrhyw newidiadau pellach yn eu cyfarfodydd ddydd Llun 13eg Mawrth 2006, cyn cyflwyno Cynllun Gweithredu'r Drydedd Flwyddyn i'r Awdurdod i'w fabwysiadu yn ei gyfarfod ym mis Mawrth; a***
***iv. bod dyddiad cyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ac Achub yn cael ei newid o ddydd Llun 20fed Mawrth 2006 i ddydd Llun 27ain Mawrth 2006 er mwyn ei gwneud yn haws i wneud y newidiadau angenrheidiol i Gynllun Gweithredu'r Drydedd Flwyddyn cyn ei gyflwyno i'r cyfarfod hwnnw ar gyfer ei fabwysiadu fel Cynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn Cynllun Risg yr Awdurdod.***

## 8) Y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2006/07 a'r Rhagolygon ar gyfer 2007/08 a 2008/09

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i'r aelodau i gyflwyno'r cynigion drafft ar gyfer cyllideb 2006/07 a'r rhagolygon ar gyfer 2007/08 a 2008/09. Esboniodd fod y gyllideb refeniw ddrafft ar gyfer 2006/07, manylion y cyfraniadau amcanol fydd eu hangen gan yr awdurdodau cyfansoddol, y rhestr o'r dangosyddion darbodus sy'n ofynnol dan Gôd Ymarfer Archwilio'r Comisiwn Archwilio ar Reoli'r Trysorlys; Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2006/07 a'r rhaglen gyfalaf ddrafft, i gyd yn atodiadau i'r adroddiad. Esboniodd y Trysorydd fod y ffactorau allweddol yr oedd y swyddogion wedi eu hystyried wrth lunio'r gyllideb ddrafft hefyd yn gynwysiedig yn yr adroddiad.

I ateb cwestiynau'r aelodau, dywedodd y swyddogion y penderfynwyd, yn dilyn cyflwyno'r Côd Darbodus, argymell y dylai'r lefel "de-minimus" ar gyfer gwariant

cyfalaf nawr gael ei osod ar £100 yr eitem. Y rheswm dros osod lefel mor isel oedd y ffaith fod prisiau nifer o'r eitemau a brynir nawr, yn enwedig ym maes Technoleg Gwybodaeth, yn is na'r isafswm yma. Gofynnodd yr aelodau am newid yr argymhelliad ynghylch y lefel "de-minimus" i gynnwys y geiriad "£100 yr eitem". O ran defnyddio rhan o'r Ddarpariaeth Bensiynau i leddfu'r pwysau ar y gyllideb oherwydd y broses o gymhathu rheng i rôl; cadarnhaodd y Trysorydd fod yr awdurdodau cyfansoddol a'r archwilwyr yn ymwybodol o fodolaeth yr arian yn y Ddarpariaeth er nad arian yr Awdurdod "yn fanwl gywir" ydoedd ond yn hytrach arian yr awdurdodau cyfansoddol. Petai nifer uchel o ddigwyddiadau ar yr ochr weithredol wedi bod dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, byddid wedi defnyddio'r arian i gwrdd â chostau ymateb i'r digwyddiadau hynny. Os bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori ynghylch newidiadau i'r trefniadau cyllido ar gyfer y Cynllun Pensiwn ac yn dilyn yr un egwyddorion â Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) wrth gyllido'r Cynlluniau yn Lloegr, fe allai'r Awdurdod fod yn dal Darpariaeth oedd fwy na'r hyn fyddai ei angen. Byddai modd defnyddio'r rhan o'r Ddarpariaeth hwn wedyn at ddibenion eraill gan leddfu'r galw ar yr awdurdodau cyfansoddol. Nid oedd yr awdurdodau yn Lloegr oedd wedi dilyn llwybr tebyg trwy wneud darpariaeth ar gyfer costau ymddeoliadau yn y dyfodol wedi cael eu cosbi. O ran y dyfarniadau gwerthuso swyddi, cafodd yr aelodau wybod mai dim ond nifer gyfyngedig oedd yn dal ar ôl ac felly ni fyddai'r effaith ar y gyllideb yn gyffredinol yn sylweddol.

Datganodd y Cynghorydd W J Chorlton fuddiant fel derbynnydd pensiwn dan y cynllun presennol. Dywedodd y Clerc wrtho nad oedd, fel aelod wedi ymddeol, yn cael ei atal rhag cymryd rhan mewn trafodaeth ynghylch cynlluniau pensiwn y dyfodol gan na fyddai'n elwa'n bersonol. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

- ***i*** ***cymeradwyo'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2006/07 ar £29,349,655, a bod £3K o fewn y gyllideb ddrafft yn cael ei neilltuo ar gyfer gweithgareddau Cymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc (YFA) yn ystod y flwyddyn;***
- ***ii*** ***bod yr awdurdodau cyfansoddol yn cael gwybod am y cyfraniadau amcanol fydd eu hangen ar gyfer 2006/07 fel a nodwyd yng ngholofn olaf y tabl yn Atodiad B;***
- ***iii*** ***dirprwyo'r pŵer i'r Panel Gweithredol ystyried a chymeradwyo sut y gellir pennu'r arbedion effeithlonrwydd i ymorol am gostau rheng i rôl a'u gweithredu ar gyfer 2006/07;***
- ***iv*** ***cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus fel a nodwyd yn Atodiad C;***
- ***v*** ***cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2006/07 fel a nodwyd yn Atodiad D;***
- ***vi*** ***cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2006/07 a'r dulliau cysylltiedig o gyllido, a gosod y lefel "de-minimus" ar gyfer gwariant cyfalaf ar £100 yr eitem; ac***
- ***vii*** ***os y deuai unrhyw newidiadau i'r amlwg cyn 31ain Ionawr 2006, dirprwyo'r pwerau i newid lefel y gyllideb i'r Panel Gweithredol neu, os daw***

***datganiadau neu arbedion o'r fath i'r amlwg ar ôl y dyddiad hwn ond cyn 15fed Chwefror 2006, dirprwyo'r pŵer hwn i'r Trysorydd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân a'r Clerc.***

**9) Arbedion Ariannol a Gwelliannau i Gyflwyno Gwasanaeth trwy'r System Shifftiau Newydd ar Orsafoedd Criw Dydd.**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) Paul Claydon ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a dweud wrth yr aelodau fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod mewn ymateb i gais gan aelodau yn dilyn adroddiad ar yr adolygiad o weithrediad y system shifftiau newydd ar orsafoedd criw dydd, a drafodwyd yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi. Aeth drwy'r manylion oedd yn yr adroddiad a dweud bod y swyddogion wedi gwneud amcangyfrif ceidwadol fod yr Awdurdod, dros y cyfnod o ddeng mis yr oedd y system shifft newydd mewn lle, wedi cael arbedion ariannol o ryw £48k. I ateb cwestiwn, dywedodd y Prif Swyddog Tân na dim ond rhan fechan o gost gyffredinol Cytundeb Cyflog ac Amodau 2003 y byddai gweithredu'r system shifftiau newydd yn ei lliniaru o ran arbedion. Yn achos Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, byddai'r costau hyn tua £300k i £400k. Pwysleisiodd i'r aelodau mai dim ond rhan o'r rheswm dros newid amseroedd y shifftiau oedd yr arbedion ariannol, roedd gwelliannau i gyflwyno gwasanaeth hefyd yn ffactor bwysig. Felly:

***<u>Penderfynwyd:</u> - nodi cynnwys yr adroddiad a bod adroddiad yn rhoi'r diweddaraf yn dod gerbron yr Awdurdod mewn deuddeng mis ar yr arbedion ariannol a'r gwelliannau i gyflwyno gwasanaethau a ddaeth o ganlyniad i'r system shifft newydd ar orsafoedd criw-dydd. Hefyd, dylai'r adroddiad gynnwys manylion am y nifer uwch o waith diogelwch tân cymunedol a wnaethpwyd a'r effaith roedd hynny'n ei gael ar nifer y galwadau a dderbyniwyd ar yr ochr weithredol.***

**10) Gwefan Newydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) Colin Hanks ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i gyflwyno gwefan newydd y Gwasanaeth a'r Awdurdod i'r aelodau. Roedd yn falch o allu lansio'r wefan cyfangwbl ddwyieithog newydd yn y cyfarfod. Yna cyflwynwyd Mr Tony White, Dadansoddwr Technoleg Gwybodaeth y Gwasanaeth, i'r Aelodau. Cyn rhoi dangosiad o'r wefan newydd, hysbyswyd yr Awdurdod gan Mr White fod y wefan mor syml ag y bo modd er mwyn i'r cyhoedd gael mynediad hawdd ati gan nad oedd band eang ar gael ym mhob man yn Ngogledd Cymru. Aeth yn ei flaen i esbonio fod dewis ar y 'dudalen gartref' i'r cyhoedd ymweld â rhan y Gwasanaeth neu'r Awdurdod o'r wefan yn Gymraeg neu'n Saesneg. Byddai'r wefan newydd yn cael ei rheoli'n fewnol gan fod nifer o'r staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio system reoli'r gronfa ddata. Byddai hyn yn fodd i ddiweddaru'r wefan yn rheolaidd. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'r ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn y Cynllun Risg ar gael ar

y wefan, ac y byddid yn cynnwys dolenni i wefannau'r awdurdodau cyfansoddol arni. Hefyd, gellid gwneud ymholiadau i weld a fyddai'r awdurdodau cyfansoddol yn cynnwys dolenni i wefan y Gwasanaeth ar eu gwefannau hwy. I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd D Clayton, dywedodd y Clerc nad oedd dosbarthiadau Cymdeithas Rheolwyr Technoleg Gwybodaeth (SOCITIM) ond yn berthnasol i wefannau awdurdodau lleol a bod yr arolwg diweddaraf newydd gael ei gynnal. Cafodd y swyddogion eu llongyfarch am y wefan newydd, a:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r adroddiad a lansio gwefan newydd y Gwasanaeth.***

## 11) Llythyr o Gynrychiolaeth

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad a chopïau o'r ohebiaeth rhyngddo ef a Swyddfa Archwilio Cymru (a ddosbarthwyd o flaen llaw) ynghylch Datganiad o Gyfrifon yr Awdurdod. Esboniodd fod gofyn i'r Awdurdod, dan Reoliad 8 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio 1996 a gan fod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon, gydnabod yn ffurfiol y Llythyr o Gynrychiolaeth a anfonwyd i Swyddfa Archwilio Cymru. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cydnabod yn ffurfiol y Llythyr o Gynrychiolaeth a anfonwyd i Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch Datganiad o Gyfrifon 2004/05.***

## 12) Gohebiaeth ynghylch Datganiadau Ariannol i'r rhai sydd â chyfrifoldeb am Lywodraethu

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr David Jones, Rheolwr Archwilio o Swyddfa Archwilio Cymru, i'r cyfarfod i gyflwyno'r ohebiaeth ynghylch datganiadau ariannol i'r rhai sydd â chyfrifoldeb am lywodraethu. Ymddiheurodd Mr Jones i'r Awdurdod am yr oedi wrth gwblhau'r archwiliad o gyfrifon yr Awdurdod a phwysleisiodd mai'r Swyddfa ac nid yr Awdurdod oedd yn gyfrifol am yr oedi. Oherwydd yr oedi yn y broses archwilio, roedd y Panel Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 26ain Hydref, wedi methu a thrafod yr eitem fusnes bresennol, yr eitem ynghylch y Llythyr o Gynrychiolaeth a Chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon 2004/05. Cadarnhaodd Mr Jones fod rhai o'r newidiadau o ran diwyg yr oedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi gofyn amdanynt bellach wedi eu gwneud, ac felly roedd yr holl weithdrefnau angenrheidiol o ran archwilio wedi eu cwblhau. Er mwyn i'r Swyddfa allu cyflawni'n ffurfiol ei waith archwilio o ran y Cyfrifon, roedd raid iddo gyflwyno'r Ohebiaeth i'r Awdurdod cyn iddo allu cymeradwyo'r fersiwn derfynol o'r Datganiad o Gyfrifon.

Cadarnhaodd Mr Jones i'r aelodau nad oedd unrhyw faterion i'w hadrodd ynghylch y newidiadau arfaethedig i adroddiad yr archwilydd; dim camddatganiadau heb eu newid; dim gwendidau perthnasol yn y systemau cyfrifo a rheolaeth fewnol wedi'i nodi, nac unrhyw faterion eraill yr oedd yn dymuno dwyn sylw atynt.

Yr unig eitem yr oedd yn dymuno tynnu sylw'r aelodau ati oedd y 'Darpariaethau' oedd gan yr Awdurdod ar 31ain Mawrth 2005. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn sylweddoli bod yr aelodau'n ymwybodol o'r darpariaeth, er nad oedd dal darpariaethau o'r fath yn cyd-fynd yn fanwl gywir â Datganiad Arfer Argymelledig CIPFA (Statement of Recommended Practice (SoRP)), a oedd yn *"requires provision to be made when an Authority has a present obligation… as a result of a past event".* Roedd yr archwilwyr wedi nodi bod nodyn ar y Fantolen Gyfunol fod y 'Darpariaethau' mae'r Awdurdod yn eu dal yn *"to meet future, rather than past, expenditure that is certain, or likely, to be incurred".* Dywedodd Mr Jones wrth yr aelodau fod y Swyddfa Archwilio yn derbyn, er nad yw'r symiau a gedwir fel 'Darpariaethau' yn cydymffurfio â gofynion y Datganiad Arfer Argymelledig, ac eithrio'r Ymrwymiad Pensiwn efallai, fod dull yr Awdurdod yn ddarbodus ac yn dryloyw. Roedd yn eglur hefyd fod y symiau a gedwir fel arfer yn cael eu defnyddio o fewn cyfnod rhesymol a bod yr awdurdodau cyfansoddol yn ymwybodol o'r sefyllfa. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

***i. nodi'r Ohebiaeth;***
***ii. cydnabod bod mater y 'Darpariaethau' a gedwir wedi cael ei ddwyn i'w sylw; a***
***iii. chadarnhau bod yr Awdurdod yn fodlon i ddatgeliad y symiau hyn aros heb ei newid.***

## 13) Cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2004/05

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i gyflwyno'r cyfrifon archwiliedig i'r aelodau, a newidwyd yn unol â chanfyddiadau Swyddfa Archwlio Cymru, ar gyfer eu cymeradwyo. Esboniodd fod yr adroddiad oedd yn hunan-esboniadol yn cynnwys copi o'r cyfrifon terfynol ac, fel y gofynnwyd, gopi o'r "Atodlen o Faterion" a gyhoeddwyd gan y Swyddfa. Roedd yr Atodlen yn cynnwys y gwelliannau y gofynnodd y Swyddfa amdanynt, ac roeddent i gyd yn welliannau o ran cyflwyniad. Nid oedd angen gwneud unrhyw welliannau perthnasol i'r cyfrifon eu hunain. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2004/05.***

## 14) Dirprwyo Pwerau ynghylch derbyn y Llythyr Archwilio Blynyddol

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r Awdurdod nodi y byddai'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2004/05 yn cael ei dderbyn a'i ystyred gan y Panel Gweithredol. Esboniodd y manylwyd am y rheswm y dylai'r Panel Gweithredol dderbyn y Llythyr yn yr adroddiad. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi y byddai'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gyfer 2004/05 yn cael ei dderbyn a'i ystyried gan y Panel Gweithredol ac y byddai copi o'r llythyr yn cael ei anfon at holl aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub.***

**15) "Er Gwybodaeth"**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân y rhifyn diweddaraf o'r cylchgrawn "Er Gwybodaeth". Llongyfarchwyd y swyddogion am y cylchgrawn ac am y seremoni wobrwyo gwasanaeth hir a gynhaliwyd yn ddiweddar. Felly:

***Penderfynwyd*****: - derbyn y cylchgrawn**

**16) Materion Brys**

**Safonau Gwasanaeth i Danau yn y Cartref yng Nghymru:** Dosbarthwyd copïau yn y cyfarfod o lythyr oddi wrth Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Llywodraeth Cynulliad Cymru, dyddiedig 30ain Tachwedd 2005, ynghyd ag ymateb drafft i'w ystyried gan yr aelodau. Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau mai ychydig iawn o wybodaeth benodol oedd yn y ddogfen ymgynghorol ei hun a'i fod, yn yr ymateb drafft, wedi croesawu'r pwyslais ar y cynnig i gael *"correct balance between intervention and prevention"* a bod Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn croesawu'r fenter cymunedau mwy diogel ac yn weithgar wrth geisio cyflawni'r amcan hwn trwy broses ei Gynllun Risg. Roedd yr ymateb drafft hefyd yn cadarnhau bod yr Awdurdod yn cefnogi'r egwyddor o Safonau Gwasanaeth ond na fyddai'n fodlon derbyn *"an all Wales standard that set any of the three fire and rescue authorities in a position to be considered less favourably than the others by virtue of geography or demographics"*. Dywedodd y Prif Swyddog Tân mai ei farn ef oedd fod angen i'r Safonau Gwasanaeth a fyddai'n cael eu gosod allu ymorol am gymunedau trefol a gwledig. Felly:

***Penderfynwyd*****: - cyflwyno'r ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad ar y "Safonau Gwasanaeth i Danau mewn Carrefi yng Nghymru" fel y'i lluniwyd erbyn y dyddiad cau, sef 31ain Ionawr 2006.**

Cyn dod â'r cyfarfod i ben, dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35 y prynhawn.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** T Roberts **Dyddiedig:** 27 Mawrth, 2006